

Dylid gwneud cais drwy: Conservatoires UCAS
Cod y Sefydliad: R86
Cod y Cwrs: RW02

Mae'r trosolwg cwrs hwn yn rhoi crynodeb o raglen BA Anrh Theatr Gerddorol fel y'i cynigir o fis Medi 2021. Er bod yr wybodaeth yn adlewyrchu'r rhaglen a gynigiwyd hyd yma, nodwch y gallai fod yn destun gwelliant a newid yn y dyfodol. Ymgynghorir â myfyrwyr bob amser ar newidiadau o'r fath ac mae manylion ar gael i ymgeiswyr sy'n dal cynigion. Mae pob blwyddyn o'r cwrs gwerth 120 credyd. Er mwyn symud ymlaen drwy bob blwyddyn bydd rhaid i fyfyrwyr basio pob modiwl.

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
Canu 1 30 credyd	Canu 2 30 credyd	Prosiect Pontio 20 credyd
Actio 1 20 credyd	Actio 2 20 credyd	Perfformiad Cyhoeddus 1 40 credyd
Dawns 1 30 credyd	Dawns a Symud 2 30 credyd	Perfformiad Cyhoeddus 2 40 credyd
Llais, Lleferydd a Thestun 1 10 credyd	Llais, Lleferydd a Thestun 2 10 credyd	Astudiaethau Proffesiynol a Chreadigol 20 credyd
Cyd-destunau Proffesiynol 1 10 credyd	Cyd-destunau Proffesiynol 2 10 credyd	
Prosesau Creadigol 1 10 credyd	Prosesau Creadigol 2 10 credyd	
Prosesau Integredig 1 10 credyd	Prosesau Integredig 2 10 credyd	

Blwyddyn Un

Canu 1

Credydau: 30

Aseiad: Aseiad Ymarferol (50%), Adroddiad (40%), Prawf Dosbarth (10%)

Elfen Un: Techneg a Repertoire.

Cyfes o diwtoriais unigol a seminarau grŵp sy'n canolbwyntio ar ddatblygu techneg ddiogel ar gyfer canu drwy ymarferion ymarferol a repertoire, ac archwilio'r agweddau ffisiolegol ac arddulliadol ar gynhyrchu lleisiol. Bydd y myfyriwr yn gallu parhau â'i ddatblygiad proffesiynol ei hun drwy nodi a chymhwyso arfer gorau a methodolegau arloesol yn annibynnol ar draws amrywiaeth o arddulliau repertoire ar gyfer Theatr Gerddorol.

Elfen Dau: Actio drwy Gân 1

Drwy'r prosiect hwn, bydd myfyrwyr yn datblygu sgiliau i fanteisio ar botensial mynegiannol a naratif cân tra'n parhau'n ffyddlon i'r gofynion actio allweddol sy'n ymwneud â pherchnogaeth cymeriad a chydberthynas.

Elfen Tri: Elfennau Cerddoriaeth

Cyfres o ddsbarthiadau ymarferol a fydd yn hwyluso dealltwriaeth myfyrwyr o theori cerddoriaeth a dehongli sgoriau a thestunau cerddorol.

Actio 1

Credydau: 20

Asesiad: Adroddiad 1 (50%), Adroddiad 2 (50%)

Elfen Un: Byrffyrrio

Mae dosbarthiadau ymarferol, gweithdai ac ymarferion yn creu amgylchedd gwaith lle mae'r actor yn ymchwilio i'r heriau, y cyfleoedd a'r gofynion a gynigir drwy berfformiad byrffyr a digymell.

Elfen Dau: Testun ac Ymarfer

Mae dosbarthiadau ymarferol, gweithdai ac ymarferion yn creu amgylchedd gwaith lle mae'r actor yn ymchwilio i heriau, cyfleoedd a gofynion testun neu destunau penodol, gyda phwyslais arbennig ar ddatblygu cymeriad a chyd-berthynas

Dawns 1

Credydau: 30

Asesiad: Asesiad Ymarferol 1 (50%), Asesiad Ymarferol 2 (50%)

Elfen 1: Jazz

Dosbarthiadau ymarferol mewn Techneg a Repertoire Jazz theatr gerddorol, i gynnwys ffurfiau jazz mwy diweddar fel Dawnsio Stryd a Masnachol

Elfen 2: Bale

Dosbarthiadau ymarferol mewn techneg a geirfa Bale

Elfen 3: Tap

Dosbarthiadau ymarferol mewn techneg a geirfa Tap

Elfen 4: Symudiadau Actor

Bydd y ffurfiau gwahanol o Ddawns a Symud sydd wedi eu cynnwys yn y modiwl yn cael eu hasesu'n ffurfiannol drwy ddsbarthiadau ynghyd ag Asesiadau Ymarferol mewn Jazz a Bale.

Llais, Lleferydd a Thestun 1

Credydau: 10

Asesiad: Asesiad Ymarferol 1 (40%), Asesiad Ymarferol 2 (60%)

Cyfres o ddsbarthiadau ymarferol a thiwtorials sy'n sefydlu cyflwyniad trylwyr i waith llais a thestun. Bydd yn sefydlu defnydd iach ac effeithiol o'r llais - yn enwedig mewn perthynas ag anadlu, cyseiniant ac ynganiad. Caiff hyn ei archwilio a'i gymhwyso drwy waith ar amrywiaeth o destunau, a'i brif ffocws yw archwilio, gwerthfawrogi a mwynhau iaith.

Cyd-destunau Proffesiynol 1

Credydau: 10

Asesiad: Asesiad Ymarferol (50%), Ysgrifennu Hunan-fyfyriol (50%)

Elfen Un: Astudiaethau Cyd-destunol

Bydd cyfres o seminarau yn archwilio datblygiadau allweddol yn hanes a repertoire theatr gerddorol; yn ogystal â nifer o ymarferwyr a damcaniaethwyr theatr y mae eu gwaith wedi newid ffurfiau, confensiynau ac arferion arddull presennol yn sylweddol

Elfen Dau: Astudiaethau Proffesiynol

Cyfres o ddsbarthiadau a gweithdai ymarferol ar arferion ymarfer a thechnegau clyweliad ar gyfer y diwydiant y theatr gerddorol.

Bydd myfyrwyr yn sefydlu Portffolio Ymarfer Proffesiynol lle bydd cyfle i fyfyrwyr archwilio eu datblygiad a'u cyfraniad creadigol i'w gwaith drwy ymgysylltu â phroses feirniadol, fyfyrionol a gwerthusol.

Bydd asesiad o'r elfen hon yn cael ei wneud yn ffurfiannol, yn ogystal â thrwy broses Ffug Glyweliad a chyflwyno'r Portffolio Ymarfer Proffesiynol.

Prosesau Creadigol 1

Credydau: 10

Asesiad: Perfformiad Creadigol (75%), Dogfen hunan-fyfyrionol (25%)

Cyfres o seminarau, dosbarthiadau ymarferol a gweithdai, lle mae'r broses o wneud gwaith newydd ar gyfer theatr gerddorol yn cael ei chanfod. Gall y broses gynnwys amrywiaeth o sesiynau dyfeisio, cyfansoddi ac ysgrifennu cydweithredol.

Mae myfyrwyr yn ymchwilio, ymarfer a chynhyrchu perfformiad wedi'i greu ganddynt eu hunain gan ddefnyddio sgiliau a ddatblygwyd ar draws y cwrs, gan arwain at berfformiad o ddim llai na 10 munud o flaen cynulleidfa fewnol.

Bydd yr asesiad yn seiliedig ar y cyfraniad a wnaed i'r Broses Greadigol ynghyd â chyflwyno llyfr nodiadau o waith ar y gweill.

Prosesau Integredig 1

Credydau: 10

Asesiad: Adroddiad (gan 3^{ydd} parti) (40%), Adroddiad 2 (gan 3^{ydd} parti) (40%), Ysgrifennu Hunan-fyfyrionol (20%)

Elfen 1: Canu a Dawnsio

Bydd myfyrwyr yn ymchwilio i ddarnau o ddeunydd ensemble wedi eu cymryd o amrywiaeth o repertoire y theatr gerddorol a'u hymarfer a'u perfformio; bydd hyn yn gyfrwng iddynt ddarganfod pwysigrwydd y gydberthynas a'r heriau ymarferol wrth integreiddio perfformiad lleisiol a chorfforol ar gyfer y Theatr Gerddorol

Elfen 2: Medli

Bydd myfyrwyr yn ymchwilio i fedli byr o repertoire y Theatr Gerddorol wedi'u cymryd o un gwaith a'u hymarfer a'u perfformio, a byddant yn archwilio ymhellach y berthynas hanfodol a'r heriau ymarferol wrth integreiddio perfformiad lleisiol a chorfforol.

Blwyddyn Dau**Canu 2**

Credydau: 30

Asesiad: Asesiad Ymarferol (40%), Adroddiad (60%)

Elfen Un: Techneg a Repertoire

Cyfres bellach o diwtorials unigol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu techneg ddiogel ar gyfer canu drwy wneud ymarferion a datblygu repertoire. Yn hollbwysig, bydd y myfyriwr yn cael ei alluogi i barhau ei ddatblygiad proffesiynol ei hun drwy nodi, gwerthuso a chymhwyso arfer gorau a methodolegau arloesol yn annibynnol.

Elfen Dau: Prosiect Actio drwy Gân 2

Drwy'r prosiect hwn, bydd myfyrywyr yn datblygu sgiliau uwch i fanteisio ar naratif a photensial mynegiannol cân tra'n parhau'n ffyddlon i'r gofynion actio allweddol sy'n gysylltiedig â pherchnogi cymeriad a chyd-berthynas.

Actio 2

Credydau: 20

Asesiad: Adroddiad (50%), Adroddiad (50%)

Elfen Un: Testun Dwysach

Cyfres o ddsbarthiadau grŵp, gwaith golygfa wedi'i arsylwi a galwadau lle mae cyd-destun dramâu sy'n defnyddio testun dwys megis gwaith gan Shakespeare, Moliere, Coward a Wilde yn cael ei astudio; ynghyd â'r modd o ddadansoddi a gwireddu'r testun, ac mae'r berthynas â methodolegau actio eraill yn cael eu harchwilio gan arwain at ymarfer a pherfformio detholiad o olygfeydd ac areithiau.

Elfen Dau: Actio i'r Sgrin

Gofynnir i fyfyrwyr ymateb i amrywiaeth o amgylcheddau gwaith sy'n gyfarwydd o fewn y diwydiant teledu a ffilm. Bydd y rhain yn cynnwys sesiynau clyweliad a chastio, saethu dan bwysau sy'n ystyriol o amser, dyfeisio ac addasu sgrïptiau a ffilmio golygfeydd byr ar leoliad

Dawns a Symud 2

Credydau: 30

Asesiad: Asesiad Ymarferol 1 (50%), Asesiad Ymarferol 2 (50%)

Elfen 1: Dosbarthiadau dawns ymarferol mewn Techneg a Repertoire Jazz, arddulliau Lladin a Dawnsio Neuadd

Elfen 2: Dosbarthiadau dawns ymarferol mewn techneg a geirfa Bale a Gwaith Partner

Elfen 3: Dosbarthiadau dawns ymarferol mewn techneg a geirfa Tap

Elfen 4: Dosbarthiadau ymarferol mewn gwaith Symud i Actor i gynnwys Ymladd ar Lwyfan

Llais, Lleferydd a Thestun 2

Credydau: 10

Asesiad: Asesiad Ymarferol 1 (80%), Asesiad Ymarferol 2 (20%)

Cyfres o ddsbarthiadau ymarferol a thiwtorials, sy'n atgyfnerthu ac yn ymestyn y gwaith a drafodir yn Llais, Lleferydd a Thestun 1. Bydd ffocws ar gynyddu rheolaeth dechnegol, amrywiaeth a grym, yn enwedig o ran defnyddio'r llais mewn amrywiaeth o wahanol fannau a chyfryngau yn ogystal â gwaith ar feithrin acen a thafodiaith. Ochr yn ochr â hyn, bydd y myfyriwr yn datblygu ei ddealltwriaeth o'r strwythurau semantig a synhwyrdd sydd wedi'u cynnwys mewn amrywiaeth o destunau cynyddol anodd – gan arwain at gyflwyno gwaith i hyfforddwr allanol.

Cyd-destunau Proffesiynol 2

Credydau: 10

Asesiad: Asesiad Ymarferol (75%), Ysgrifennu Hunan-fyfyriol (25%)

Elfen Un: Astudiaethau Cyd-destunol

Bydd cyfres o seminarau yn archwilio arfer creadigol presennol y diwydiant a datblygiadau diweddar a newydd mewn rhaglennu yn repertoire proffesiynol y Theatr Gerddorol.

Elfen Dau: Astudiaethau Proffesiynol

Cyfres o ddsbarthiadau ymarferol a gweithdai ar arferion ymarfer gyda phwyslais arbennig ar dechnegau clyweliad ar gyfer diwydiant y theatr gerddorol.

Elfen Tri: Portffolio Ymarfer Proffesiynol

Bydd myfyrwyr yn parhau i gyfrannu at eu Portffolio Ymarfer Proffesiynol a fydd yn gyfle pellach i graffu'n iawn ar eu cynnydd a'u cyfraniad creadigol i'w gwaith drwy ddeall proses feirniadol, fyfyriol a gwerthusol. Bydd myfyrwyr yn gwerthuso eu hymagwedd at brosiect Lefel 5 penodol, gan ystyried yn benodol y broses o integreiddio gwaith ymarferol ar draws y modiwlau. Cyflwynir y gwaith fel rhan fyfyriol o'r Asesiad.

Prosesau Creadigol 2: Ysgrifennu Newydd

Credydau: 10

Asesiad: Adroddiad (gan 3^{ydd} parti) (75%), Ysgrifennu Hunan-fyfyriol (25%)

Drwy gyfrwng darn newydd o waith theatr gerddorol; naill ai darn cyfan neu fersiwn fer; bydd myfyrwyr yn ymgymryd â phroses ymchwil a datblygu gyda thîm creadigol wrth archwilio a gwireddu'r darn. Bydd myfyrwyr yn cyfrannu at ddatblygiad y darn drwy gyfrwng trafodaeth ac ymarfer. Bydd asesiad yn cael ei wneud yn seiliedig ar y cyfraniad at y broses ynghyd â chyflwyniad byr.

Prosesau Integredig 2: Sioe Gerddorol

Credydau: 10

Asesiad: Adroddiad (75%), Ysgrifennu hunan-fyfyriol (25%)

Drwy ymchwil ymarferol a beirniadol o Sioe Gerddorol glasurol neu gyfoes; er enghraifft, *Carousel*, *Oklahoma*, *A Chorus Line*, *Chicago*, bydd myfyrwyr yn ymarfer ac yn perfformio fersiwn fer o waith cyflawn. Wrth ymarfer, bydd y pwyslais ar archwilio cymeriadau credadwy ac aml-ddimensiwn, ynghyd â'r cyflawniad technegol ac artistig yn sgiliau ymarferol Canu a Dawnsio.

Blwyddyn Tri

Prosiect Pontio

Credydau: 20

Asesiad: Adroddiad (100%)

Cyfres o ymarferion sy'n ceisio adeiladu ar y gwaith a wnaed yn y modiwlau ymarferol Lefel 4 a 5 drwy waith manwl ar waith theatr gerddorol mewn amgylchedd ymarfer proffesiynol. Rhoddir pwyslais ar y disgyblaethau angenrheidiol sydd ymhlyg yn y broses ymarfer, gan gynnwys ymwybyddiaeth broffesiynol o'r rolau sy'n cael eu chwarae a'r sgiliau sy'n cael eu cyfrannu gan reolwyr llwyfan, a thechnegwyr sain a goleuo.

Perfformiad Cyhoeddus 1

Credydau: 40

Asesiad: Adroddiad (100%)

Rhoddir cyfle i'r myfyriwr ymarfer a chyflawni nifer o rolau o dan gyfarwyddyd proffesiynol ac amodau cynhyrchu, yn aml gyda chyflogwyr posibl yn craffu. Caiff detholiad eang o ddeunydd ei berfformio mewn ystod o gyd-destunau perfformio, sy'n gofyn am y gallu i gymhathu a chyfuno sgiliau yn gyflym sy'n deillio o bob rhan o'r rhaglen, gan arddangos dirnadaeth a barn briodol.

Perfformiad Cyhoeddus 2

Credydau: 40

Asesiad: Adroddiad (100%)

Rhoddir cyfle i'r myfyriwr ymarfer a chyflawni nifer o rolau o dan gyfarwyddyd proffesiynol ac amodau cynhyrchu, yn aml gyda chyflogwyr posibl yn craffu. Caiff detholiad eang o ddeunydd ei berfformio mewn ystod o gyd-destunau perfformio, sy'n gofyn am gymhathu a chyfuno sgiliau yn gyflym sy'n deillio o bob rhan o'r rhaglen, gan arddangos dirnadaeth a barn briodol.

Astudiaethau Proffesiynol a Chreadigol

Credydau: 20

Asesiad: Adroddiad (50%), Asesiad Ymarferol (30%), Ysgrifennu Hunan-fyfyriol (20%)

Elfen Un: Arddangosfa

Bydd pwyslais arbennig yn cael ei osod ar baratoi ar gyfer y cyflwyniad Arddangosfa sy'n digwydd yng Nghaerdydd a Llundain yn ystod tymor y Gwanwyn. Bydd ymarferion ychwanegol ar gyfer yr Arddangosfa'n cael eu cynnig yn yr wythnosau cyn y perfformiad.

Elfen Dau: Techneg Clyweliad

Gofynnir i fyfyrwyr gymryd rhan mewn clyweliadau a / neu ddsbarthiadau meistr gaiff eu cynnal gan gyfarwyddwyr proffesiynol, cyfarwyddwyr castio ac asiantau – sy'n cynnig profiad ymarferol o wahanol brosesau clyweliad ar gyfer y diwydiant theatr gerddorol broffesiynol.

Elfen Tri: Portffolio Ymarfer Proffesiynol

Bydd myfyrwyr yn gorffen eu cyfraniadau at eu Portffolio Ymarfer Proffesiynol a bydd cyfle pellach i werthuso eu cynnydd a'u cyfraniad creadigol i'w gwaith drwy ddeall proses feirniadol, fyfyriol a gwerthusol. Bydd myfyrwyr yn gwerthuso eu hymdriniaeth â phrosiectau Lefel 6 drwy gyfrwng dogfen fyfyriol a chyflwyniad llafar.